

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda,  
Practis Deintyddol Stryd  
Siarl**

6 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	16
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Stryd Siarl, 147 Stryd Siarl, Aberdaugleddau, SA73 2HP, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 6 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Stryd Siarl yn darparu gwasanaeth ar gyfer tua 4,903 o gleifion y GIG a 1,608 o gleifion preifat yn ardal Aberdaugleddau. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae tîm o staff, sy'n cynnwys pedwar deintydd, pum nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd, ac un uwch-dderbynnydd/rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Coronau a phontydd
- Mewnosodiadau
- Dannedd gosod
- Gwasanaethau orthodontig
- Triniaethau cosmetig
- Gwynnu dannedd
- Triniaethau esthetig i'r wyneb

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn ystyried sut roedd Practis Deintyddol Stryd Siarl yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y practis yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau trwy osod blwch boddhad cleifion/awgrymiadau yn y dderbynfa.

Nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gofal a thriniaethau bob amser yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym. Er inni weld bod safon y cyfleusterau clinigol yn dda, roedd angen gwelliannau ynglŷn â'r broses cadw cofnodion clinigol. Er bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cyfarpar a chyffuriau brys yn briodol, gwelsom fod angen gwella rhai meysydd ynglŷn â'r defnydd o offer radiograffeg (pelydr-X). Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>4</sup>, ond er bod rhai staff wedi derbyn hyfforddiant ar y broses ddadheintio, nodwyd bod rhai meysydd i'w gwella o hyd.

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod canllawiau clir ar gyfer staff, er bod meysydd a oedd angen eu gwella ynglŷn ag asesiadau staff a'r broses gwyno.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

---

<sup>4</sup>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw'r canllawiau ynglŷn â dadheintio offer mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y practis yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau, trwy osod blwch boddhad cleifion/awgrymiadau yn y dderbynfa.**

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion AGIC at y practis, ac roedd 24 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Gwnaethom siarad hefyd â thri chlaf tra oeddem yn y practis. Roedd y cleifion wedi bod yn mynychu'r practis ers rhwng wyth mis a 28 mlynedd.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a oedd wedi cwblhau'r holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn, a gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael croeso mawr gan y staff. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Practis ardderchog. Dw i'n teithio dros 15 milltir gan ei fod mor dda."*

*"Fel teulu, rydyn ni'n hapus iawn gydag ansawdd ein triniaeth ac agwedd broffesiynol staff y practis."*

*"Dw i wastad wedi bod yn fodlon ar safon y gofal dw i'n ei dderbyn yn y practis hwn. Mae'r holl staff yn garedig ac yn barod eu cymwynas."*

*"Dw i wastad wedi teimlo'n fodlon ar y gwasanaeth yn y ddeintyddfa hon."*

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau'n cynnwys y canlynol:

*"Ydyn, maen nhw'n esbonio popeth."*

*"Ydyn, maen nhw'n barod iawn eu cymwynas."*

Roedd ymron i'r holl gleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis a



chadarnhau bod y wybodaeth hon ar gael. Gwelsom fod y manylion cyswllt y tu allan i oriau wedi eu cynnwys yn nhaflen wybodaeth i gleifion y practis ac ar y ffenestr.

Roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm, ac ar ddydd Gwener rhwng 9am ac 1pm. Roedd apwyntiadau brys ar gael hefyd. Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith er mwyn sicrhau y gallai cleifion drefnu gweld deintydd ar amser cyfleus.

Nododd bron i bob claf ar yr holiaduron y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen. Gwelsom fod gwybodaeth am gwyno wedi'i harddangos yn y man aros, a bod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon pe bai angen.

Gwelsom flwch boddhad cleifion/awgrymiadau yn y man aros a oedd yn cael ei wirio bob ddydd. Roedd y sylwadau hyn yn cael eu defnyddio i roi adborth i'r practis.

Roedd cleifion wedi nodi yn yr holiaduron eu bod wedi cael eu hysbysu am risgiau, manteision a thriniaethau amgen er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Fodd bynnag, nid oedd y trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Tynnir sylw at hyn yn y gwelliannau sydd eu hangen yn hwyrach yn yr adroddiad. Roedd pob claf yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r driniaeth arfaethedig.

Roedd amrywiaeth o ddefnydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y manau aros. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion, ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis ac ynglŷn â sut i leisio pryder. Roedd angen diweddarau'r rhain i sicrhau eu bod yn cynnwys enwau a chymwysterau'r deintyddion; manylion llawn ynglŷn â gwneud cwyn, gan gynnwys cyfeiriadau'r cyngor iechyd cymunedol lleol ac AGIC; a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Nid oedd gan y practis wefan. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y dyfodol.

## ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym. Er bod safon y cyfleusterau clinigol yn dda, roedd angen gwelliannau ynglŷn â'r broses cadw cofnodion clinigol. Er bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cyfarpar a chyffuriau brys yn briodol, gwelsom fod angen gwella rhai meysydd ynglŷn â'r defnydd o offer radiograffeg (pelydr-X). Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>5</sup>, ond er bod rhai staff wedi derbyn hyfforddiant ar y broses ddadheintio, nodwyd bod rhai meysydd i'w gwella o hyd.**

### **Cyfarpar/dogfennau radiograffig**

Gwelsom feysydd a oedd angen eu gwella ynglŷn â threfniadau ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Er bod y ddogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau a phroffion diogelwch, a bod staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, nid oedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei fod yn defnyddio cyfarpar pelydr-X. Gwelsom fod offer wedi cael eu harchwilio'n briodol bob tair blynedd, ond nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio blynyddol. Roedd hyn yn golygu nad oedd systemau ar waith ar gyfer sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau blynyddol o'r offer radiograffig.***

Gwnaethom edrych ar y dull o gofnodi pelydrau-X yng nghofnodion y cleifion a gweld bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Ni nodwyd cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X
- Ni adroddwyd ar ganfyddiadau'r sganiau pelydr-X
- Ni raddiwyd y sganiau pelydr-X at ddibenion archwiliad

---

<sup>5</sup>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw'r canllawiau ynglŷn â dadheintio offer mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis archwilio cofnodion radiograffig y cleifion a nodi'r cyfiawnhad dros gynnal sganiau pelydr-X, ynghyd â'r canfyddiadau. Hefyd, rhaid graddio'r pelydrau-X er mwyn sicrhau bod ansawdd y llun yn cael ei gofnodi at ddiben archwilio.***

### **Dadebru a chymorth cyntaf**

Roedd y staff yn wybodus ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud pe bai argyfwng meddygol, ond er bod polisi dadebru cyfredol ar waith, nid oedd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen adolygu'r polisi dadebru er mwyn iddo fodloni gofynion canllawiau dadebru'r DU.***

Nid oedd aelod o staff wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal ar unwaith pe baent yn sâl neu'n cael eu hanafu yn y practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf penodedig sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ar y safle ar bob adeg.***

Roedd cyfarpar dadebru priodol a threfnus ar gael i'r staff pe bai argyfwng meddygol (llewyg). Ar adeg yr arolygiad, roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn yn golygu bod staff wedi eu hyfforddi a bod y cyfarpar ganddynt i reoli argyfyngau meddygol.

### **Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys**

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u storio'n drefnus mewn lleoliad da a diogel. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

## **Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract cyfredol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

## **Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)**<sup>1</sup>

Roedd gan y practis un ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, a oedd yn bodloni'r safonau a amlinellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1). Gwelsom fod llwybr clir ar waith o ran prosesau ar gyfer offer sydd wedi'u defnyddio ac offer glân, ac roedd sinc ar wahân ar gyfer golchi dwylo. Gwelsom fod bocsys wedi eu labelu'n glir yn cael eu defnyddio i gludo offerynnau wedi'u defnyddio ac offerynnau glân yn ôl ac ymlaen i'r ystafell ddadheintio.

Roedd pob offeryn deintyddol yn cael ei fagio ar ôl iddo gael ei sterileiddio, ac arno ddyddiad prosesu a dyddiad ar gyfer ei ddefnyddio. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio bod yr offer yn cael eu defnyddio o fewn amser penodol. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio yn hyn o beth.

Gwelsom fod staff a oedd yn cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant cyffredinol ar y testun hwnnw.

Gwelsom fod y llyfrau log ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau ac ar ddiwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad Deoniaeth Cymru o ofynion rheoli heintiau yn ddiweddar. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaid parhaus â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod offer yn ddigon glân a diogel i'w defnyddio ar gleifion.

## **Cyfleusterau clinigol**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth a gweld eu bod yn lân, yn drefnus ac wedi'u cyfarparu'n dda er mwyn sicrhau diogelwch yr holl gleifion a staff.

Roedd niferoedd digonol o offer deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi'u storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod digon o eitemau untro ac offer diogelu ar gael i'r cleifion a'r staff eu gwisgo yn ystod y sesiynau triniaeth.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod deunyddiau deintyddol nad oeddent o fewn y dyddiadau dod i ben a argymhellir wedi'u storio yn y cypyrddau ym mhob ystafell driniaeth. Yn benodol, roedd y dyddiadau dod i ben ar ddeunyddiau a ddefnyddir yn yr ystafell driniaeth ar gyfer triniaethau wedi hen fynd heibio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau nad yw dyddiadau dod i ben unrhyw ddeunyddiau deintyddol wedi mynd heibio.***

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd angen rhoi sylw i safon y cofnodion yn y meysydd canlynol:

- Ni welwyd archwiliadau periodontol sylfaenol<sup>6</sup> ym mhob un o'r cofnodion deintyddol.
- Er bod hanesion meddygol y cleifion yn cael eu diweddarau ar bob ymweliad, nid oeddent yn cael eu cydlofnodi gan y deintyddion.
- Nid oedd y cofnodion yn dangos tystiolaeth glir o drafod opsiynau triniaeth, nac o'r triniaethau yr oedd eu hangen ar gleifion.
- Nid oedd hanesion cymdeithasol cyflawn yn cael eu cofnodi ar y pryd. Byddai hyn yn amlygu risgiau posibl o ran iechyd y geg ac yn galluogi ymyrraeth gynnar.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella'r broses o gadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd.***

---

<sup>6</sup>Dull sgrinio deintyddol syml a chyflym yw'r **archwiliad periodontol sylfaenol** a ddefnyddir i ddynodi faint o archwiliad sydd ei angen ac i roi canllawiau sylfaenol ar y driniaeth sydd ei hangen.

Gwnaethom hefyd drafod yn fanwl cofnod un cleifion lle nad oedd y broses o drafod y driniaeth, neu'r cyfiawnhad dros yr opsiynau triniaeth, wedi cael eu cofnodi'n glir. Er enghraifft, roedd cymysgedd o driniaeth y GIG a thriniaeth breifat, ac nid oeddem yn gallu dilyn y penderfyniadau ynglŷn â'r dewisiadau triniaeth. Mae AGIC wedi atgyfeirio'r achos hwn at y bwrdd iechyd.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod canllawiau clir ar gyfer staff mewn perthynas â'u gwaith beunyddiol, er bod meysydd i'w gwella ynglŷn â gwybodaeth ar gyfer staff newydd, arfarniadau staff parhaus, a'r broses gwyno.**

### **Staff**

Roedd y practis yn cynnig triniaeth ddeintyddol breifat yn bennaf, gyda rhywfaint o driniaeth y GIG. Roedd uwch-dderbynnydd/rheolwr practis a oedd yn cynorthwyo yn y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd gan unigolion swyddi penodol, ond roeddent yn cydweithio'n dda fel un tîm unedig. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu gwaith.

Roedd y deintydd a'r nyrsys deintyddol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd yr holl staff wedi gwneud cais yn ddiweddar i adnewyddu eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwnaeth AGIC ofyn i'r practis anfon tystiolaeth i ddangos ei fod wedi'u derbyn pan fyddant wedi cyrraedd.

Gwelsom fod y tystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod deintyddion wedi cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos yn y practis, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Nid oedd un o'r deintyddion yn gallu dangos ei dystysgrif inni. Fodd bynnag, roeddem yn gallu cadarnhau bod ei gofrestrriad yn gyfredol trwy'r wybodaeth a gedwir gan dîm cofrestru AGIC.

Gwelsom gofnodion brechiadau ac imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol. Dywedodd yr uwch-dderbynnydd/rheolwr y practis wrthym nad oedd y practis yn ymwybodol o'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol yr oedd y bwrdd iechyd yn ei gynni, ond y byddai'n ymchwilio i'r gwasanaeth hwn ar frys. Roedd gan y deintyddion yswiriant indemniad unigol, ond nid oedd yn glir a oedd y nyrsys yn cael eu cynnwys. Gwnaethom ofyn i'r mater hwn gael ei gadarnhau, a rhoddwyd cadarnhad i AGIC y dydd ar ôl ein harolygiad.

Gwelsom dystiolaeth bod staff clinigol wedi cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Ar y pryd, nid oedd ffeil ymsefydlu er mwyn cynnig gwybodaeth berthnasol i staff sydd newydd ddechrau. Er hynny, cadarnhaodd staff fod trefniadau ymsefydlu/ymgyfarwyddo anffurfiol ar waith er mwyn sicrhau

bod staff newydd yn derbyn cymorth i ddod i arfer â phrosesau a gweithdrefnau'r practis.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Rhaid i'r practis ddatblygu rhaglen ymsefydlu ffurfiol ar gyfer staff newydd.***

Roedd cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn fisol. Dangoswyd y cofnodion inni, a rhoddwyd enghreifftiau llafar inni o wersi a ddysgwyd a hefyd o rannu gwybodaeth berthnasol, megis newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau.

Ar y pryd, nid oedd system ar waith ar gyfer arfarniadau staff ffurfiol. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff wrth iddynt ystyried eu gwaith eu hunain, ac o nodi unrhyw anghenion o ran cymorth a datblygiad proffesiynol.

#### **Amddiffyn plant ac oedolion**

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith a oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol pe bai angen i'r staff wneud atgyfeiriadau at yr awdurdod perthnasol. Roedd hon yn enghraifft o arferion nodedig am ei bod yn sicrhau bod prosesau diogel ac amserol ar waith i amddiffyn plant sy'n agored i niwed.

Mae pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant, ac mae dau aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Er bod polisi ar waith, nid oedd manylion cyswllt lleol ar gyfer gwneud atgyfeiriadau yn ddiogel ac yn amserol pe bai angen. Mae angen darparu'r manylion hyn a diwygio'r polisi.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylai pob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.***

#### **Cwynion**

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith, ond nid oedd yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y GIG na deintyddiaeth breifat. O ganlyniad, hysbyswyd y practis o'r angen i gael dwy weithdrefn gwyno ar wahân, sy'n amlinellu'r gwahanol amserlenni ac asiantaethau cyswllt.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***



***Mae'n rhaid i'r polisi cwyno ar gyfer cleifion preifat gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (Rheoliad 15).***

***Rhaid i'r polisi cwyno ar gyfer cleifion y GIG gydymffurfio â gofynion canllawiau'r GIG ar gwynion, sef "Gweithio i Wella" (2008).***

Roedd cwynion yn cael eu cadw'n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd amserlenni wedi'u dogfennu ar gyfer yr ymatebion a wnaed. Roedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi hefyd. Bydd hyn yn ei wneud yn bosibl nodi tueddiadau yn gynnar.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn trafod pryderon â rheolwr y practis. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

### **Polisiau a gweithdrefnau**

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar gael i staff ar gyfer eu gwaith bob dydd. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol.

Roedd y rhan fwyaf o dystysgrifau a chofnodion cynnal a chadw hefyd ar waith; fodd bynnag, ni welsom dystysgrif cynnal a chadw/diogelwch ar gyfer nwy. Felly, mae AGIC wedi gofyn i'r practis anfon y dystysgrif hon.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y gwelir tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

### **Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.**

Lleolir y practis yng nghanol tref Aberdaugleddau, ac roedd yn cynnwys dau lawr. Roedd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Ar y pryd, roedd pedair ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio, tair ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf. Roedd man parcio preifat bach ar y safle, ond roedd hefyd digon o leoedd parcio ar y stryd y tu allan.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol y tu mewn, ac roedd wedi'i oleuo, ei wresogi a'i awyru'n briodol. Roedd rhan allanol y practis mewn cyflwr da.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwyddion clir y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd rhifau cyswllt y gallai'r cleifion eu ffonio mewn argyfwng yn weladwy o'r tu allan.

Roedd rhestrau prisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat wedi'u harddangos yn y practis ar gyfer y cleifion. Roedd y practis hefyd wedi arddangos rhestr o staff, ynghyd â'u swyddogaethau a'u rhifau cofrestrïad (lle bod hynny'n berthnasol).

Roedd tai bach ar wahân ar gyfer y staff a'r cleifion, a oedd i'w gweld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio. Fodd bynnag, nid oedd cyfleuster ar gyfer gwaredu ar ddeunyddiau glanweithiol menywod.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfleusterau ar gyfer gwaredu ar ddeunyddiau glanweithiol menywod ym mhob tŷ bach.***

Roedd maint y manau aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent yn cynnwys deunyddiau darllen a nifer fach o bosteri hyrwyddo iechyd.

Roedd arwyddion yn cyfeirio at yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddyddion tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro rhywun rhag cael mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Gellir rhoi sicrwydd i gleifion bod cyfathrebiadau a chofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Stryd Siarl yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Stryd Siarl**

**Dyddiad yr Arolygiad: 6 Awst 2015**

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
	Nid oes angen unrhyw welliannau.			
	<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>			
Tudalen 8	Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau blynyddol o'r offer radiograffig.  [Safonau Iechyd a Gofal 2.9]	Cysylltwyd â DBG (Dental Buying Group) ynglŷn â chynnal archwiliadau blynyddol.	Jane Connelly	Cwblhawyd (yn aros am apwyntiad ar gyfer archwiliad)
Tudalen 9	Mae angen i'r practis archwilio cofnodion radiograffig y cleifion a nodi'r cyfiawnhad dros gynnal sganiau pelydr-X, ynghyd â'r	Hysbyswyd pob deintydd am y gwelliant sydd ei angen yn y maes hwn.  Cynhelir archwiliadau clinigol o nodiadau cleifion	Philippa Scholz	Mae pob deintydd bellach yn

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>canfyddiadau. Hefyd, rhaid graddio'r sganiau pelydr-X er mwyn sicrhau bod ansawdd y llun yn cael ei gofnodi at ddiben archwilio.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol]</p>	<p>bob chwe mis. Bydd yr archwiliadau hyn yn cynnwys gwirio bod yr holl sganiau radiograffig yn cael eu cofnodi, ynghyd â'r cyfiawnhad dros eu cymryd, gradd ar gyfer y ddelwedd, ac adroddiad ar y canfyddiadau.</p>		<p>sicrhau bod pob sgan radiograffig yn cael ei gofnodi, ei gyfiawnhau a'i raddio. Cynhelir yr archwiliad cyntaf ym mis Chwefror 2016.</p>
Tudalen 10	<p>Mae angen adolygu'r polisi dadebru er mwyn iddo fodloni gofynion canllawiau dadebru'r DU.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 5.1; CDC 6.2.6, 6.6.6]</p>	<p>Bydd y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiwygio/diweddaru. I'w gadarnhau gyda'r swyddog hyfforddi dadebru cardio-pwlmonaidd yn ystod yr hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd a gynhelir yn y practis bob blwyddyn.</p>	Oliver Badham	Cwblhawyd fis Medi 2015.
Tudalen 9	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf penodedig sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ar y safle ar bob adeg.</p> <p>[Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a</p>	<p>Bydd y prif ddeintydd yn ymrestru yn y ganolfan hyfforddi leol.</p>	Oliver Badham	Y cwrs nesaf sydd ar gael

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Diogelwch]			
Tudalen 11	<p>Rhaid i'r practis sicrhau nad yw dyddiadau dod i ben unrhyw ddeunyddiau deintyddol wedi mynd heibio.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.1; CDC 1.5.1, 6.6.6]</p>	<p>Mae'r broses o wirio'r dyddiad ar yr holl ddeunyddiau deintyddol wedi cael ei hychwanegu at y rhestr wirio ar gyfer pob ystafell driniaeth. Bydd y dasg hon yn cael ei chwblhau a'i dogfennu gan bob nyrs. Hysbyswyd y prif ddeintyddion mai nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod y dasg hon yn cael ei chwblhau.</p>	Oliver Badham a Michael Shaw	Cwblhawyd fis Medi 2015.
Tudalen 11	<p>Roedd angen rhoi sylw i safon y cofnodion yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni welwyd archwiliadau periodontol sylfaenol<sup>7</sup> ym mhob un o'r cofnodion deintyddol.</li> <li>Er bod hanesion meddygol y cleifion</li> </ul>	<p>Hysbyswyd pob deintydd a nyrs am y diffygion ynglŷn â chadw cofnodion.</p> <p>Mae pob deintydd bellach yn cynnal archwiliadau periodontol sylfaenol rheolaidd ar gyfer pob claf lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mae pob hanes meddygol bellach yn cael ei gydlofnodi gan ddeintydd a'i sganio i ffeil y claf.</p>	Oliver Badham a Michael Shaw	Cwblhawyd fis Medi 2015.

<sup>7</sup>Dull sgrinio deintyddol syml a chyflym yw'r archwiliad periodontol sylfaenol a ddefnyddir i ddynodi faint o archwiliad sydd ei angen ac i roi canllawiau sylfaenol ar y driniaeth sydd ei hangen.

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>yn cael eu diweddarau ar bob ymweliad, nid oeddent yn cael eu cydlofnodi gan y deintyddion.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oedd y cofnodion yn dangos tystiolaeth glir o drafod opsiynau triniaeth, nac o'r triniaethau yr oedd eu hangen ar gleifion.</li> <li>Nid oedd hanesion cymdeithasol cyflawn yn cael eu cofnodi ar y pryd. Byddai gwneud hyn yn amlygu risgiau posibl o ran iechyd y geg ac yn galluogi ymyrraeth gynnar.</li> </ul> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol]</p>	<p>Mae'r holl opsiynau triniaeth sy'n cael eu trafod â chleifion bellach yn cael eu cofnodi'n glir yn nodiadau'r cleifion.</p> <p>Mae hanes cymdeithasol cleifion bellach yn cael ei drafod â chleifion yn yr ystafell driniaeth, ac mae cofnod o'r risgiau i iechyd y geg yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.</p> <p>Bydd safonau o gadw cofnodion yn cael eu harchwilio gan aelod clinigol o staff, a bydd y canfyddiadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd practis.</p>		
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
Tudalen 13	<p>Rhaid i'r practis ddatblygu rhaglen ymsefydlu ffurfiol ar gyfer staff newydd.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; CDC 6.6.1, 6.6.6]</p>	Bydd cynllun ymsefydlu ffurfiol yn cael ei lunio.	Philippa Scholz	Cwblhawyd fis Medi 2015.
Tudalen 14	Dylai pob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar	Mae pob aelod o staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant, ac mae dau aelod	Oliver Badham a Michael Shaw	Cyn gynted â phosib

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7; CDC 4.3.3, 8.5]</p>	<p>o staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Bydd gweddill y staff yn mynychu cwrs hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed cyn gynted ag y bydd un ar gael.</p>		
Tudalen 14	<p>Mae'n rhaid i'r polisi cwyno gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Adran 15.</p> <p>Rhaid i'r polisi cwyno ar gyfer cleifion y GIG gydymffurfio â chanllawiau'r GIG ar gwynion, sef "Gweithio i Wella" (2008).</p>	<p>Bydd y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau.</p>	Michael Shaw	<p>Cwblhawyd fis Medi 2015.</p>
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
Tudalen 16	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfleusterau ar gyfer gwaredu ar ddeunyddiau glanweithiol menywod ym mhob tŷ bach.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992]</p>	<p>Bydd dau fin ar gyfer gwastraff glanweithiol yn cael eu hychwanegu at y contract gwaredu gwastraff cyfredol.</p>	Jane Connelly	<p>Cwblhawyd a gosodwyd fis Medi 2015.</p>



**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Philippa Scholz**

**Teitl:** **Nyrs ddeintyddol**

**Dyddiad:** **1/10/15**

---